

Cafcass Cymru Adroddiad Blynyddol 2020-2021



Cynnwys

Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru	3
Ffigurau Allweddol	4
Dangosyddion Perfformiad Allweddol	5
Ein Gwasanaeth	6
Ein Staff	10
Ein Rhanddeiliaid	13
Edrych tua'r dyfodol	16



Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru

Mae eleni wedi bod yn eithriadol o anodd i Cafcass Cymru wrth i ni gymryd camau pendant ac addasu ein ffordd o weithio mewn ymateb i bandemig Covid-19. Rwy'n llawn balchder tuag at ein holl gydweithwyr sydd wedi gweithio'n hynod ddiwyd, gan groesawu'r newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Eleni, rydym wedi addasu'n gyflym i'r angen i weithio o bell, gan gyflwyno technoleg a dulliau cyfathrebu newydd er mwyn sicrhau y gallai ein staff fod yn bresennol mewn gwrandawriadau o bell a gwneud gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd yn ddiogel. Gan gydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi ei chael ar ein staff, gan gynnwys gorfod gweithio o bell ac addasu i ffyrdd newydd o weithio, rydym wedi neilltuo amser ac adnoddau i flaenoriaethu a hybu eu hiechyd a'u llesiant.

Rydym hefyd wedi llwyddo i greu cysylltiadau agosach byth â'n rhanddeiliaid allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Llywydd yr Adran Deulu, aelodau'r farnwriaeth a Cafcass Lloegr. Dim ond oherwydd y ffordd gydweithredol y mae rhanddeiliaid wedi gweithio gyda'i gilydd y mae'r system Cyfiawnder Teuluol wedi gallu parhau i weithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein perthynas a'n gwaith gyda'n pwyllgor cyngori ein hunain wedi cryfhau yn fwy byth hefyd. Mae'r pwyllgor wedi darparu gwybodaeth a chynghor amhrisiadwy wrth i ni ymateb i'r heriau

a gyflwynwyd gan Covid-19 ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl aelodau am eu cefnogaeth. Yn benodol, hoffwn gyfleu fy ngwerthfawrogiad a'm diolch i Jackie Murphy sydd wedi darparu trosolwg gwerthfawr wrth gadeirio'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom weithio gyda chyfanswm o 11,085 o blant eleni — cynnydd o 6% ar y llynedd a 15% ar 2018-19. Mae dadansoddiad pellach o'n data wedi dangos ein bod wedi gweld cynnydd o 18.5% i'n llwyth achosion misol cyfartalog mewn cyfraith breifat ers y llynedd a chynnydd o 12.3% i'n llwyth achosion misol cyfartalog mewn cyfraith gyhoeddus. Rydym wedi canolbwyntio dros y flwyddyn ddiwethaf ar addasu sut rydym yn gweithio a chynorthwyo ein staff i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth prydlon sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, byddwn yn gweithio gyda'n staff a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc i ddysgu o'r gwahanol ffyrdd o weithio yr ydym wedi eu mabwysiadu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn dymuno i'n model gweithio yn y dyfodol gynnwys rhai o'r newidiadau cadarnhaol yr ydym wedi eu gwneud eleni, er enghraifft croesawu technolegau newydd a ffyrdd hyblyg o weithio, er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'r Llys Teulu.

Ffigurau Allweddol



Eleni. Gwnaethom ni weithio gydag **11,085** o blant.



Cawsom **1624** o geisiadau Cyfraith Gyhoeddus.



Daeth **881** o geisiadau Adran 31 i Cafcass Cymru yn 2020/21.



Gwnaethom ni gymryd rhan mewn

1827 o Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawriad Cyntaf:


Cafodd **413** eu datrys yn llwyddiannus heb i unrhyw waith pellach gael ei wneud gan fod y partïon wedi cytuno ar drefniadau a oedd yn ddiogel, yn addas ac er budd pennaf y plentyn;

Arweiniodd **937** at adroddiadau Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn gan Cafcass Cymru, lle gwnaeth ein hymarferwyr gyfarfod â phlant i ddeall eu hanghenion yn well cyn gweithio'n agos gyda'r partïon dan sylw.



Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rydym wedi cyrraedd ein targed o **95%** ar gyfer **3** o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chafwyd gwelliannau o'i gymharu â pherfformiad blaenorol hefyd.



O'r ceisiadau adran 31 a ddaeth i law, neilltuwyd **97%** o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'w derbyn.



Neilltuwyd **96%** o geisiadau am Ddadansoddiad o Effaith ar Blentyn o fewn 5 diwrnodgwaith i'w derbyn.



Bodlonodd **88%** o Adroddiadau Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn eu dyddiad ffeilio gyda'r llys



Bodlonodd **97%** o adroddiadau Diogelu eu dyddiad ffeilio gyda'r llys



Ein Gwasanaeth

Nod 1:

Darparu dadansoddiad ac argymhellion o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'u teilwra i anghenion ac amgylchiadau pob plentyn a pherson ifanc.

Dros y flwyddyn ddiwethaf a thrwy gydol pandemig Covid-19, rydym wedi parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod yn ein gwaith o ansawdd uchel yn gyson.

Wrth i ni symud i ffyrdd newydd o weithio mewn ymateb i'r pandemig, diweddarwyd ein datganiadau o ddisgwyliadau ynghylch sut y byddem yn gweithio gyda phlant a theuluoedd. Rydym wedi sicrhau bod ein llythyrâu a'n taflenni gwybodaeth ar gael yn ddigidol ar ein gwefan ac wedi cyhoeddi canllaw cwynion newydd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar achosion Adran 31. Hefyd, ym mis Mehefin cyhoeddwyd ein cynllun strategol 5 mlynedd newydd, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer y sefydliad tan 2025 a sut

rydym yn bwriadu cynnal a gwella ansawdd ein gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Ddiwedd mis Mehefin, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei hadroddiad, *Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat*. Mae Cafcass Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ystyried sut i ymateb yn effeithiol ac yn briodol i ganfyddiadau'r adroddiad a chyfrannu at y cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn gwella'r canlyniadau i blant a rhieni sy'n rhan o achosion cyfraith breifat yng Nghymru.



Nod 2:

Gwranddo'n gyson ar lais y plentyn a'i hybu ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae plant yn ganolog i'n holl waith yn Cafcass Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu bob amser wrth i ni wneud gwelliannau i'n gwasanaethau. Eleni, rydym wedi archwilio mwy o ffyrdd o ymgysylltu â phlant sy'n diwallu eu hanghenion unigol yn well.

Rydym wedi cynnal perthynas gref â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc lle maent wedi parhau i chwarae rhan allweddol yn y gwaith yr ydym wedi'i wneud eleni. Mae 'Cyngor Da' y Bwrdd ar bynciau fel cyfathrebu â phlant ac amrywiaeth a chynhwysiant wedi ei gynnwys yn ein canllawiau datblygu arferion ac wedi ei gyfieithu a'i gyhoeddi ar ein mewnwrwyd staff.

Rydym wedi cyhoeddi blogiau wedi'u hysgrifennu gan aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc yn rheolaidd, sy'n cynnig rhagor o wybodaeth am bynciau o ddiddordeb penodol i'n staff a chafodd cydweithwyr y cyfle i fod yn bresennol mewn gweminarau 'Llais y Plentyn' y Bwrdd.

Gwnaethom ymgynghori â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc hefyd ar ein dull o gasglu gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant yn ystod oes yr achos a cheisiwyd adborth ar wella'r wefan. Mae aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein proses recriwtio staff a'n rhaglen sefydlu i staff.




Nod 3:

Deall a dangos y gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Rydym wedi parhau i ymdrechu i ddeall y gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei wneud i blant, teuluoedd a phobl ifanc. Yn ogystal â'n gwaith cydweithredol ag ymchwilyr y cyfeiriwyd ato, rydym wedi parhau â'n rhaglen sicrhau ansawdd. Cynhaliwyd nifer o archwiliadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ceisiadau Adran 31, adroddiadau atodiadau ac Adroddiadau Ymchwiliad Diogelu uwch. Mae ein harchwiliadau yn cynnig gwybodaeth am ansawdd ein gwaith ac yn hysbysu'r camau yr ydym yn eu cymryd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Gan gydnabod nad yw un dull cyfathrebu bob amser yn addas i bob teulu, plentyn a pherson ifanc, lansiwyd treial gennym yn ceisio adborth i helpu i lunio'r ffordd y byddwn yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi parhau i gynnal adolygiadau ymarfer drwy gydol y flwyddyn.

Rydym yn parhau i fod yn ddiolchgar am yr holl adborth yr ydym yn ei gael gan ein defnyddwyr gwasanaeth. Eleni, gwnaethom weithio gyda dros 11,000 o blant a'u teuluoedd ac rydym wedi derbyn 48 canmoliaeth. Rydym hefyd wedi cael 68 o gwynion — gostyngiad o fwy na 27% o'i gymharu' â'r llynedd. Roedd yr holl gwynion hyn gan oedolion ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan blant eleni.



Nod 4:

Gwella ein gwasanaeth yn barhaus trwy archwilio ffyrdd newydd o weithio.

Yn ystod 2020-2021, bu'n rhaid i ni newid y ffordd yr ydym yn gweithio fel sefydliad ac addasu i weithio o bell i ganiatáu i ni barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Arweiniodd hyn i ni gyflwyno technoleg newydd i staff, ochr yn ochr â nifer o wasanaethau digidol sydd ar gael i deuluoedd ledled Cymru.

Gwnaethom gyflwyno'r canlynol:

- Dulliau cyfathrebu newydd i ganiatáu i ni barhau i gyfarfod ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd ledled Cymru, gan ddefnyddio Microsoft Teams, FaceTime ac Attend Anywhere,
- System ffôn newydd i sicrhau bod ein cydweithwyr cymorth busnes yn gallu ymdrin â galwadau ffôn o bell,
- Systemau i rannu gohebiaeth yn ddiogel â theuluoedd a rhanddeiliaid.
- Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o bell, sy'n cynorthwyo teuluoedd nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf i ymgysylltu mewn iaith y maent yn teimlo'n gyfforddus â hi.

I sicrhau bod ein staff yn cael eu cynorthwyo gyda'r newidiadau a'r defnydd o'r dechnoleg newydd a oedd ar gael, rydym yn cynnal Sesiynau Gweithio'n Glyfrach dair gwaith yr wythnos y gall staff eu mynychu ar gyfer hyfforddiant neu gymorth ychwanegol.

Wrth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi symud tuag at ddull mwy digidol hefyd eleni, rydym wedi gweithio yn agos i sicrhau bod ein staff yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i fod yn hyderus wrth gael mynediad at wrandawiadau llys o bell gan ddefnyddio eu Platfform Fideo Cyffredin (CVP), ochr yn ochr â hyfforddiant parhaus wrth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi gyflwyno porth ar-lein ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus. Rydym yn parhau i weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi wrth i'r cyflwyniad barhau ledled Cymru, gan ddarparu hyfforddiant a chymorth parhaus i gydweithwyr.



Ein Staff

Nod 5:


Hybu iechyd a llesiant pob aelod o staff, i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth gynnal y ddarpariaeth o wasanaeth effeithlon ac effeithiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, daeth yn bwysicach nag erioed ein bod yn cymryd camau i ddiogelu a hybu iechyd a llesiant ein staff.

Rydym wedi cynnal dau arolwg llesiant, sydd â'r bwriad o gael gwell dealltwriaeth o sut roedd staff yn teimlo ac yn addasu i'r newidiadau, yn gysylltiedig â gwaith ac yn bersonol, a ddaeth o ganlyniad i Covid-19 a nodi beth arall y gallem fod yn ei wneud i'w cynorthwyo. O'r rhain, gwnaethom lunio adroddiadau llesiant, sydd wedi llywio ein dull ar gyfer y dyfodol.

Trefnwyd sesiynau llesiant rheolaidd a rhannwyd gwybodaeth ac adnoddau am iechyd a llesiant meddwl â'r staff trwy gylchlythyrau, cyfarfodydd tîm a'u rheolwyr. Gwnaethom weithio hefyd gyda Cafcass Lloegr i ddarparu hyfforddiant llesiant wedi'i deilwra i'n cydweithwyr ac i hybu a rhannu arferion gorau a strategaethau ar gyfer cadw'n iach wrth weithio gartref.

Mae Covid-19 wedi golygu y bu'n rhaid defnyddio technoleg mwy nag erioed ac mae Cafcass Cymru a Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod gan staff yr offer sydd ei angen arnynt i weithio gartref. Rydym wedi cyflwyno atebion teleffoni newydd ac rydym yn archwilio'n barhaus feddalwedd a chymwysiadau newydd a allai ein helpu i weithio'n hyblyg.



Nod 6:

Buddsoddi mewn dysgu parhaus, gan helpu i ysbrydoli ac ysgogi staff i ddatblygu yn eu swyddi.

Un elfen bwysig o gefnogi ein staff yw sicrhau bod ganddynt fynediad at yr adnoddau a'r cyfleoedd dysgu iawn.

Mewn ymateb i'r cyfyngiadau a orfodwyd oherwydd y pandemig, addaswyd ein dull o ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu i ddarparu'r mwyafrif o ddigwyddiadau hyfforddi a oedd wedi'u trefnu yn rhithwir yn llwyddiannus, a gohiriwyd y rhai nad oeddem yn gallu eu cynnal tan 2021.

I sicrhau bod gan ein cydweithwyr fynediad at ymchwil ac adnoddau perthnasol, gwnaethom gyhoeddi erthyglau ymchwil a chyfeirio at adnoddau yn ein cylchlythyrau staff sy'n trafod amrywiaeth o bynciau fel cam-drin domestig ac anghenion pobl ifanc anabl.

Rydym yn cynnal cysylltiadau cryf â phrifysgolion, ac er y bu tarfu ar brofiad gwaith ar gyfer ôl-raddedigion Gwaith Cymdeithasol yn eu blwyddyn olaf eleni gan Covid-19 yn anffodus, rydym wedi dechrau ymchwilio i sut y gallem ailgyflwyno'r rhain yn ystod y flwyddyn nesaf, i sicrhau ein bod yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad proffesiynol myfyrwyr gwaith cymdeithasol.



Nod 7:

Recriwtio, cadw a buddsoddi mewn gweithlu hynod fedrus, ymroddedig ac amrywiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r archwiliadau a'r dysgu a datblygu a nodwyd eisoes, rydym wedi parhau i weithio i gryfhau ein fframwaith Sicrhau Ansawdd, Dysgu a Gwella i sicrhau ein bod ni, fel sefydliad, yn cyflawni nodau ein cynllun strategol newydd dros y bum mlynedd nesaf.

Er gwaethaf y pandemig, rydym wedi parhau i recriwtio i'n swyddi gwag yn ystod y flwyddyn, ac i adlewyrchu'r llwyth gwaith cynyddol, rydym hefyd wedi recriwtio staff dros dro ychwanegol i sicrhau bod y capasiti gennym i ymateb i achosion newydd.



Ein Rhanddeiliaid

Nod 8:

Gwella a chryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid.

Mae sicrhau ein bod yn cynnal cysylltiadau cryf â'n rhanddeiliaid yn bwysig iawn i ni a'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae'r heriau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi rhoi'r cyfle i Cafcass Cymru ddatblygu cysylltiadau gweithio cryfach wrth i ni ymateb ar y cyd i newidiadau dyddiol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a chydweithwyr i wneud gwelliannau i gamau cychwynnol achosion cyfraith breifat yn y llysoedd teuluol. Gwnaethom welliannau ym mis Ebrill 2020 i symleiddio ein Hadroddiadau Ymchwiliad Diogelu. Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i ymgynghori a chydweithio, gan osod y sylfeini ar gyfer dau dreial a fydd yn cael eu cynnal yn 2021, a fydd yn ystyried dull newydd o drefnu gwrandawiadau Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawriad Cyntaf.

Rydym wedi cynnal perthynas gref ac agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar draws y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Is-adran Plant a Theuluoedd yn ogystal â Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Mewn ymateb i'r pandemig, a'r camau pendant yr oedd angen i ni eu cymryd, rydym wedi cryfhau ein perthynas waith weithredol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, yr Uwch Farnwriaeth a Cafcass Lloegr. Rydym hefyd yn falch o fod wedi croesawu aelodau newydd i'n Pwyllgor Cynghori i gryfhau llais y plentyn a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Rydym wedi parhau i gryfhau ein gwaith gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, y Cyngor Cyfiawnder Teuluol, y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol a Byrddau Cyfiawnder Teuluol lleol gan ein bod wedi gwneud cyfraniadau sylweddol at ddiwygiad ac adferiad y system Cyfiawnder Teuluol.




Nod 9:

Parhau i wella ein systemau ar gyfer casglu, adrodd a dadansoddi gwybodaeth.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu ein strategaeth ddata a'n system rheoli achosion (IRIS). Mae hyn wedi cynnwys datblygu ein system i gasglu gwybodaeth fanylach am ganlyniadau mewn achosion Cyfraith Gyhoeddus.

Mae ein system rheoli achosion yn caniatáu i ni ddyrannu a rheoli ein gwaith yn ddyddiol. Gellir gweld rhai enghreifftiau o hyn isod, gan amlinellu'r cynnydd i lwyth achosion misol cyfartalog dros y pedair blynedd diwethaf:

Llwyth Achosion Preifat Misol Cyfartalog Fesul Blwyddyn Gyllidol



Llwyth Achosion Cyhoeddus Misol Cyfartalog Fesul Blwyddyn Gyllidol





Nod 10:

Chwarae rhan flaenllaw trwy rannu ein gwybodaeth a'n deallusrwydd yn briodol â rhanddeiliaid i gefnogi gwelliannau yn y system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol.

Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu at waith ymchwil ac ymateb iddo. Rydym wedi cynnal a pharhau i ddatblygu ein perthynas â phartneriaid allweddol, gan gynnwys Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a banc data SAIL Prifysgol Abertawe.

Eleni, ymatebodd ein staff i arolygon Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield ar effaith gweithio o bell ar lysoedd teuluol, plant a theuluoedd. Rydym ni wedyn wedi gallu defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn wrth ystyried ein hymateb i weithio o bell a sicrhau ei effeithiolrwydd.

Defnyddiwyd data Cafcass Cymru dienw gan yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol hefyd wrth lunio eu hadroddiad, *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?*. Mae hwn wedi bod yn ddefnyddiol i Cafcass Cymru o ran gwella ein dealltwriaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth a'r cysylltiadau rhwng amddifadedd a cheisiadau a wneir i'r llys teuluol.



Edrych tua'r dyfodol

Ein Gwasanaeth

Dros y flwyddyn nesaf, bydd gwaith sylweddol yn cael ei wneud o ran diwygio ac adfer y system Cyfiawnder Teuluol. Yn Cafcass Cymru, bydd hyn yn cynnwys gweithio i weithredu'r argymhellion a nodir yn Adroddiad Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus y Llywydd ac Adroddiad y Gweithgor Cyfraith Breifat. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymateb i argymhellion yr Adroddiad Niwed ac yn cynnal Treial Braenaru'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yng ngogledd Cymru a fydd yn profi cynigion i ddiwygio Cyfraith Breifat.

Ein Staff

Mae Covid-19 wedi cyflwyno llawer o heriau, ond rydym hefyd yn ymwybodol y gallem ni ddysgu o'n hymateb a'r ffyrdd newydd o weithio yr ydym wedi eu datblygu eleni. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, byddwn yn ymgysylltu â'n staff i edrych ar y gwersi y gallwn eu dysgu o'r llynedd a defnyddio'r rhain i lunio a hysbysu ein model gweithredu a'n ffordd o weithio yn y dyfodol.

Ein Rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cysylltiadau cryf â'n rhanddeiliaid. Byddwn yn archwilio sut y gallwn ymgysylltu orau â'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaeth a gwneud defnydd o lwyfannau rhithwir yn y dyfodol er mwyn gweithio yn gydweithredol ac yn effeithlon i gyflawni'r canlyniadau gorau i blant.

